

Cais gan Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Prosiect Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr (Cyf: EN010112)

Nodyn yr Awdurdod Archwilio ynghylch Archwiliad Safle Digwmni

Archwiliad 4: Amgylchoedd lleoliadau (ar y tir) is-orsaf bresennol y fferm wynt alltraeth a seilwaith yn Suffolk, Lloegr – 14 a 15 Tachwedd 2022

Mae'r nodyn hwn yn gofnod byr i roi gwybod i'r Ymgeisydd, Partïon â Buddiant ac unrhyw bartïon eraill am y camau a gymerwyd gan yr Awdurdod Archwilio (ExA). Cynhaliodd yr Awdurdod Archwilio Archwiliadau Safle Digwmni ar ddydd Llun 14 Tachwedd a dydd Mawrth 15 Tachwedd 2022. Cynhaliwyd yr archwiliadau ar droed, o ffyrdd cyhoeddus a hawliau tramwy cyhoeddus. Cynlluniwyd y llwybrau gan ystyried lleoliad yr is-orsafoedd presennol ar y tir. Diben yr Archwiliadau Safle Digwmni oedd galluogi'r Awdurdod Archwilio i gael golygon o, ac ymglyfarwyddo â seilwaith yr is-orsaf bresennol ar y tir a'r amgylchoedd cysylltiedig.


Gall yr Awdurdod Archwilio (neu gyfuniad o'i aelodau) gynnal mwy o Archwiliadau Safle Digwmni, maes o law, pryd bynnag a lle bynnag y bo angen.

Diwrnod 1 - Dydd Llun 14 Tachwedd 2022

Tywydd: Clir

Gwelededd: Da

Mynychwyd yr archwiliad gan yr Awdurdod Archwilio llawn. Parciodd yr Awdurdod Archwilio ym maes parcio traeth Sizewell a cherdded o'r maes parcio, ar hyd Sizewell Gap a Sandy Lane at is-orsafoedd ar y tir Greater Gabbard a Galloper a seilwaith cysylltiedig, ac edrych ar yr ardal amgylchynol. Hefyd, cerddodd yr Awdurdod Archwilio ymhellach ar hyd Sizewell Gap, i gyfeiriad Leiston, i weld golygfeydd o'r seilwaith ar amgylchoedd ehangach.




Diwrnod 2 - Dydd Mawrth 15 Tachwedd 2022

Tywydd: Gorchudd cymylau ysgafn a glaw trwm.

Gwelededd: Da

Mynychwyd yr archwiliad gan yr Awdurdod Archwilio llawn. Teithiodd yr Awdurdod Archwilio i Bullen Lane, Bramford a pharcio mewn cilfan ar Bullen Lane. Dilynodd yr Awdurdod Archwilio y llwybr a amlygir isod ar hyd llwybrau troed cyhoeddus, ac edrychont ar is-orsafoedd East Anglia One, East Anglia Three (sydd wrthi'n cael ei hadeiladu) ac is-orsaf y Grid Cenedlaethol, seilwaith cysylltiedig a'r ardal amgylchynol.



Diwedd Archwiliad Safle Digwmni 4